# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
## Questions to the Finance Minister

### Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
### The Environment, Planning and Countryside

**Q10 Mick Bates:** What representations did the Minister receive from the Minister for Environment, Planning and Countryside in regard to the 2005-06 budget? OAQ0180(FIN)

**C10 Mick Bates:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad o ran cyllideb 2005-06? OAQ0180(FIN)

**The Finance Minister (Sue Essex):** I have regular discussions with the Minister for Environment, Planning and Countryside on all aspects of his portfolio. The subject committee was also invited to submit its views on priorities, which were taken into consideration in setting the budgets.

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar bob agwedd ar ei bortffolio. Gwahoddwyd y pwyllgor pwnc hefyd i gyflwyno ei farn ar flaenoriaethau, a ystyriwyd wrth bennu'r cyllidebau.

### Ymarferoldeb Ariannol
### Financial Viability

**Q11 Glyn Davies:** What steps does the Minister take to ensure the financial viability of decisions made by the Assembly? OAQ0182(FIN)

**C11 Glyn Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau ymarferoldeb ariannol y penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad? OAQ0182(FIN)

**Sue Essex:** Our policy development and implementation process requires a full analysis of all financial implications. The budget planning round undertakes a close analysis of financial pressures to ensure that programmes have a sustainable and secure funding base. I also discuss financial performance regularly during the year with my colleagues.

**Sue Essex:** Mae angen dadansoddiad llawn o holl oblygiadau ariannol ein proses o ddatblygu a gweithredu polisïau. Mae cylch cynllunio'r gyllideb yn dadansoddi pwysau ariannol yn fanwl i sicrhau bod gan raglenni sail ariannol gynaliadwy a diogel. Byddaf hefyd yn trafod perfformiad ariannol gyda'm cydweithwyr yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

### Portffolio Datblygu Economaidd
### The Economic Development Portfolio

**C12 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y dyraniad cyllid cyffredinol ar gyfer y portffolio datblygu

**Q12 Ieuan Wyn Jones:** Will the Minister make a statement on the overall allocation of funding for the economic development

economaidd? OAQ0193(FIN)

**Sue Essex:** Erbyn 2007-08, bydd portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth wedi cynyddu 153 y cant ers 1999-2000, o gymharu â thwf y Cynulliad ar gyfartaledd, sef 94 y cant. Bydd hyn yn hybu economi Cymru ac yn sefydlu seilwaith trafnidiaeth effeithiol. Mae ein buddsoddiad yn rheilffordd Bro Morgannwg yn dangos ein hymrwymiad.

portfolio? OAQ0193(FIN)

**Sue Essex:** By 2007-08, the economic development and transport portfolio will have increased by 153 per cent since 1999-2000, compared with the Assembly average growth of 94 per cent. This will boost the economy of Wales and establish an effective transport infrastructure. Our investment in the Vale of Glamorgan rail link shows our commitment.

**Adolygu Fformiwla Barnett**
**Reviewing the Barnett Formula**

**Q13 Eleanor Burnham:** What discussions has the Minister had with UK Government Ministers with regard to reviewing the Barnett formula? OAQ0188(FIN)

**Sue Essex:** I have had no discussions regarding the reform of the Barnett formula.

**C13 Eleanor Burnham:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU o ran adolygu fformiwla Barnett? OAQ0188(FIN)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau yn ymwneud â diwygio fformiwla Barnett.

**Portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes**
**The Education and Lifelong Learning Portfolio**

**Q14 Janet Ryder:** Will the Minister make a statement on the overall budget available for funding the Welsh Assembly Government's priorities for the education and lifelong learning portfolio? OAQ0169(FIN)

**Sue Essex:** The overall budget available for the education and lifelong learning portfolio represents an increase of more than 20 per cent between 2004-05 and 2007-08. This investment reflects the importance of education and lifelong learning in delivering our strategic agenda set out in 'Wales: A Better Country'.

**C14 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb gyffredinol sydd ar gael i ariannu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer portffolio addysg a dysgu gydol oes? OAQ0169(FIN)

**Sue Essex:** Mae'r gyllideb gyffredinol sydd ar gael ar gyfer y portffolio addysg a dysgu gydol oes yn cynnwys cynnydd o fwy nag 20 y cant rhwng 2004-05 a 2007-08. Mae'r buddsoddiad hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd addysg a dysgu gydol oes wrth gyflwyno ein hagenda strategol a nodir yn 'Cymru: Gwlad Well'.

**Cyllid y Portffolio Diwylliant**
**The Culture Portfolio Budget**

**Q15 Rosemary Butler:** Will the Minister make a statement on the overall budget provision for the culture portfolio in 2005-06? OAQ0161(FIN)

**Sue Essex:** The overall budget in 2005-06 is £138.9 million. This is £14.3 million, or 11.5 per cent, higher than it was in 2004-05. During 2005-06, the budget and spend will be kept under continuous review, and I will meet

**C15 Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth cyllid cyffredinol ar gyfer portffolio diwylliant yn 2005-06? OAQ0161(FIN)

**Sue Essex:** Y gyllideb gyffredinol yn 2005-06 yw £138.9 miliwn. Mae hyn £14.3 miliwn, neu 11.5 y cant, yn fwy na chyfanswm y gyllideb yn 2004-05. Yn ystod 2005-06, adolygir y gyllideb a'r gwariant yn

the Minister during the year to discuss progress.

barhaus, a byddaf yn cwrdd â'r Gweinidog yn ystod y flwyddyn i drafod cynnydd.